Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Wasanaethau Hamdden a Roddwyd ar Gontract Allanol – Cyngor Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2123A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn cael incwm o'i gontract hamdden gyda Legacy Leisure, ond mae angen iddo; ei sicrhau ei hun bod y contract yn rhoi gwerth am arian a chryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fydd yn rhoi estyniad ar y contract.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth canolfannau hamdden ac mae'n cael incwm o'i gontract gyda Legacy Leisure Limited, ond tan yn ddiweddar, nid oedd strategaeth ganddo i lunio'r gwasanaeth 7

Mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chanolbwyntio ar gyflawni ei amcanion llesiant trwy ei gontract gyda Legacy Leisure 7

Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r modd y mae'n rheoli'r contract, ond mae cyfle i wella trefniadau i'w sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni gwerth am arian 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol Archwiliadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

- bennu eu hamcanion llesiant; a
- chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod, wrth wneud eu penderfyniadau, yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae 5 peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac fe wnaethom ystyried y rhain yn fanwl wrth wneud y gwaith maes fel a ganlyn:

- Hirdymor – pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- Atal – sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Integreiddio – ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio – cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- Cynnwys – pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu.

3 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. Gweler **Atodiad 1** ar gyfer dangosyddion cadarnhaol y Deddf LlCD.

4 Yn ogystal â dyletswyddau dan Ddeddf LlCD, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau sy'n ymwneud ag archwilio pa un a oes gan gynghorau drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am **arian**) dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden, ym mis Rhagfyr 20152015.

5 Ym mis Awst 2012, fe ymrwymodd y Cyngor i gontract gyda Parkwood Leisure i reoli ei gyfleusterau hamdden am ddeng mlynedd gyda'r opsiwn i estyn y contract

am bum mlynedd bellach. Fe isgontractiwyd y contract i Legacy Leisure, mudiad elusennol nid-er-elw yn 2015.

6 At ddiben yr astudiaeth hon, defnyddiwn y term gwasanaethau hamdden i olygu gwasanaethau chwaraeon a hamdden a ddarperir ar ran y Cyngor gan Legacy Leisure. Nid yw ein diffiniad yn cwmpasu nac yn cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gwasanaethau llyfrgelloedd, parciau/mannau agored, amgueddfeydd/treftadaeth na'r celfyddydau.

7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai 2019 a mis Medi 2019.

## Yr hyn a ganfuom

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: a yw dull y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau hamdden o gymorth i gyflawni ei amcanion llesiant, ac yn rhoi gwerth am arian?

9 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor yn cael incwm o'i gontract hamdden gyda Legacy Leisure, ond mae angen iddo; ei sicrhau ei hun bod y contract yn rhoi gwerth am arian a chryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fydd yn rhoi estyniad ar y contract.

10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth canolfannau hamdden ac mae'n cael incwm o'i gontract gyda Legacy Leisure Limited, ond tan yn ddiweddar, nid oedd strategaeth ganddo i lunio'r gwasanaeth.
- mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chanolbwyntio ar gyflawni ei amcanion llesiant trwy ei gontract gyda Legacy Leisure.
- mae'r Cyngor wedi cryfhau'r modd y mae'n rheoli'r contract, ond mae cyfle i wella trefniadau i'w sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni gwerth am arian.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a ganfuwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** |
| --- |
| CagG 1 Dylai'r Cyngor gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy'r gwasanaethau a ddarperir gan Legacy Leisure, gan gynnwys trwy: |

- fabwysiadu dull mwy strategol o gydweithio ar gyfer Legacy Leisure a gwasanaethau hamdden eraill ar lefel leol a rhanbarthol;
- mynd ati ymhellach i integreiddio'r prosesau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau Legacy Leisure â chyrff cyhoeddus eraill a gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Addysg a Gofal Cymdeithasol; a
- chynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau Legacy Leisure i sicrhau eu bod yn cynrychioli anghenion y gymuned.

CagG 2 Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i gael sicrwydd bod y contract yn rhoi gwerth am arian. Er enghraifft, trwy:

- wella trefniadau adrodd i sicrhau bod aelodau'n cael cyfrif llawn ac amserol o berfformiad gwasanaethau;
- archwilio sut y gallai trefniadau craffu gael mwy o effaith. Gallai hyn fod trwy sicrhau bod aelodau pwyllgorau'n cael eu cynnwys yn well wrth ddewis eitemau ar gyfer agendâu ac ymgysylltu priodol a rhagweithiol â phobl leol; ac
- archwilio argaeledd data cymharol a meincnodi i ategu ei asesiad o werth am arian ymhellach.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth canolfannau hamdden ac mae'n cael incwm o'i gontract gyda Legacy Leisure Limited, ond tan yn ddiweddar, nid oedd strategaeth ganddo i lunio'r gwasanaeth

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei brif nodau wrth roi'r cyfrifoldeb am reoli ei ganolfannau hamdden ar gontract allanol i leihau cymhorthdal hamdden y Cyngor i ddim (ffi'r contract) dros oes y contract. Mae'r Cyngor bellach yn cael incwm o'r contract ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni arbediad o bron i £17 miliwn dros y contract 10 mlynedd.
- ym mis Hydref 2019, fe gytunodd y Cabinet ar strategaeth hamdden Cymunedau Mwy Egnïol ar gyfer Dyfodol Iachach 2018-2028. Ceir cynllun gweithredu sy'n tanategu'r strategaeth ac sy'n nodi sut y bydd pob un o'r amcanion yn cael ei gyflawni. Cyn hyn, nid oedd gan y Cyngor strategaeth i helpu i lunio ei wasanaeth hamdden sydd wedi'i roi ar gontract allanol.
- mae'r strategaeth newydd yn cydnabod yn eglur bwysigrwydd hamdden yn fwy eang o ran cyfrannu at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae hefyd yn darparu gweledigaeth gliriach ar gyfer ei wasanaethau hamdden. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei drafodaethau ynglŷn ag estyn y contract gyda Legacy yn ystyried y strategaeth newydd a'i chyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol.

## **Mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chanolbwyntio ar gyflawni ei amcanion llesiant trwy ei gontract gyda Legacy Leisure**

12 Caiff ein canfyddiadau mewn perthynas â phob un o'r pum ffordd o weithio a'n harweiniodd at y casgliad hwn eu nodi isod:

### Hirdymor

13 Fe ymrwymodd y Cyngor i gontract gyda Parkwood Limited ac yna Legacy Leisure Limited er mwyn parhau i gynnal canolfannau hamdden presennol a chreu incwm. Mae strategaeth hamdden y Cyngor yn egluro'i flaenoriaethau ar gyfer darpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol tan 2028, ond nid yw'n glir o'r camau gweithredu yn y strategaeth sut y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hwy a allai effeithio ar ei ddarpariaeth gwasanaethau hamdden yn y dyfodol.

## Integreiddio

14 Canfuom fod y modd y cymhwysir integreiddio fel ffordd o weithio'n dal i fod ar gam cymharol gynnar ac mae cyfle sylweddol i'r Cyngor wneud mwy i wella'r modd y mae ei wasanaethau hamdden yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill. Er enghraifft, canfuom drefniadau cydweithio cyfyngedig rhwng Legacy Leisure a datblygu chwaraeon (ar wella effaith y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS)) a chyda gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Addysg, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol i greu rhaglenni gweithgarwch sy'n gweithio ar draws cyfleusterau'r Cyngor a Legacy. Dylai strategaeth hamdden y Cyngor roi sylw i integreiddio amcanion y Cyngor ac amcanion Legacy Leisure. Er enghraifft, mae cyfleoedd i integreiddio Legacy Leisure ymhellach â chynlluniau a pholisïau cysylltiedig, megis cynllun Bwyta'n dda a symud mwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dylai hyn fod yn ganolog i drafodaethau ynglŷn â'r contract.

## Cynnwys

15 Fe benododd y Cyngor ymgynghorwyr i helpu i ddatblygu ei strategaeth hamdden; eto, cyfyngedig oedd lefel yr ymgysylltu â phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau. Mae Legacy wedi rhedeg gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned megis digwyddiadau chwaraeon lleol, ffeiriau, sioeau ac arddangosfeydd gyda ffocws ar gynyddu cyfranogiad a chreu mwy o incwm. Cafodd y rhain eu rhedeg gan ganolfannau unigol nid fel rhan o ddull strategol i dargedu grwpiau penodol. Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i Legacy gynnal arolwg cwsmeriaid blynyddol, ond nid oes trosolwg na chydgysylltu strategol i sicrhau perthnasedd i amcanion llesiant y Cyngor.

16 Nid yw manyleb y contract yn ei gwneud yn ofynnol i Legacy Leisure gynnwys y gymuned ar hyn o bryd. Gallai nodi gofyniad o'r fath helpu i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth am anghenion y gymuned i deilwra rhaglenni, rhoi anogaeth i gyfranogi ac adnabod rhwystrau i fynediad. Rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'u Dyletswydd Cydraddoldeb dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 pan fo penderfyniad yn amlwg yn effeithio ar nifer sylweddol o bobl. Dylai'r Cyngor ystyried beth arall all ei wneud i gynnwys pob rhan o'r gymuned a thargedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen a'u hannog i gyfranogi mewn gweithgareddau a ddarperir gan Legacy Leisure.

## Cydweithio

17 Mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gynorthwyo Legacy Leisure i ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd gydag ystod ehangach o bartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion y gymuned a chynyddu cyfranogiad. Er enghraifft, ychydig o dystiolaeth sydd o ddull strategol o gydweithio ar draws ffiniau sefydliadol megis gyda Bwrdd Iechyd

Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Trydydd Sector i gynyddu i'r eithaf y defnydd o adnoddau sydd ar gael.

### Atal

18 Er y bydd gwasanaethau a ddarperir gan Legacy Leisure yn naturiol yn dwyn manteision ataliol lle mae iechyd yn y cwestiwn, nid yw'r Cyngor a Legacy wedi gwneud unrhyw waith mapio na dadansoddi mewn perthynas â'r gymuned leol i adnabod unigolion mewn grwpiau allweddol, deall eu diddordebau a'u hanghenion, a theilwra rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn effeithiol ar sail yr wybodaeth hon. Bydd hyn yn rhoi anogaeth i dargedu gwasanaethau'n well at y rhai ac arnynt fwyaf angen deilliannau iechyd gwell, a allai fod yn rhan o ddull strategol ar y cyd o fynd ar drywydd atal gyda chyrff eraill megis y rhai a grybwyllwyd yn y paragraff blaenorol.

19 Mae'r contract gyda Legacy yn dod i ben yn 2022. Mae'r Cyngor wedi cytuno i drafod estyniad o bum mlynedd ar y contract tan 2027. Mae hyn yn rhoi cyfle newydd i'r Cyngor sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir trwy'r contract yn ystyried egwyddorion Deddf LlCD ac yn gwneud cyfraniad effeithiol tuag at Amcanion Llesiant y Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r modd y mae'n rheoli'r contract, ond mae cyfle i wella trefniadau i'w sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni gwerth am arian

20 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- rhoddodd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor farn archwilio o Sicrwydd Cyfyngedig ym mis Mehefin 2018 yn dilyn ei adolygiad o effeithiolrwydd cyffredinol cyflawni'r contract gyda Legacy Leisure. Canfu adolygiad dilynol ym mis Mawrth 2019 fod cynnydd da wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion a rhoddodd farn archwilio o sicrwydd rhesymol, gyda dim argymhellion yn dal heb eu rhoi ar waith.
- fe gryfhaodd y Cyngor ei drefniadau i reoli'r contract gyda Legacy Leisure trwy sefydlu tîm rheoli contract masnachol newydd ym mis Ebrill 2018. Fe fabwysiadodd y tîm hwn ddull amlddisgyblaethol, cryfach o fonitro'r contract gan gynnwys swyddogion o'r Gwasanaethau Cymdogaeth, cyllid, y gwasanaethau eiddo a, phan fo'n ofynnol, adnoddau dynol. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol rhwng y cleient a'r contractwr.
- nid yw'r contract ar gyfer rhoi gwasanaethau hamdden y Cyngor ar gontract allanol yn ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio'n benodol â'r Cod Ymarfer ar


Faterion y Gweithlu (y Cod)[1]. Mae hyn wedi arwain at weithlu 'dwy haen' yn y gwasanaeth hamdden a roddwyd ar gontract allanol gan bod yr aelodau hynny o staff a drosglwyddwyd yn wreiddiol o'r Cyngor wedi cael budd o gadw eu telerau ac amodau 'ffafriol', ond nid yw'r un peth yn wir am yr aelodau newydd hynny o staff a recriwtiwyd gan Parkwood, ac yna Legacy.

- mae'r trefniadau monitro yn y canllawiau ynghylch Cod Gweithlu Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am roi gwasanaeth ar gontract allanol yn cael ei chyflwyno mewn ffurflen flynyddol i Lywodraeth Cymru ac y dylai'r ffurflen honno gadarnhau a gafodd y Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu ei gymhwyso ai peidio. Ni chyflwynodd y Cyngor ffurflen a oedd yn datgelu bod y gwasanaethau wedi cael eu rhoi ar gontract allanol i Legacy Leisure Limited trwy drefniant isgontractio gan Parkwood Limited. Felly nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â threfniadau monitro a nodir yng Nghod Gweithlu Cymru a dylai drefnu ei fod yn gwneud hynny.
- mae perfformiad y Cyngor o ran nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad y Cyngor yn 2018-19 yn rhoi'r Cyngor yn y trydydd safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

[1] Cod Gweithlu Cymru – a adwaenir fel y Codau Gweithlu Dwy Haen, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ymdrin ag anfanteision canfyddedig i: staff y sector cyhoeddus a drosglwyddwyd i drydydd parti, fel arfer o ganlyniad i roi gwasanaethau ar gontract allanol; a staff a recriwtiwyd gan y contractwr i weithio ochr yn ochr â'r gweithlu a drosglwyddwyd.

**Arddangosyn 2 – nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden yn y Fro o'i gymharu â Chyfartaledd Cymru**

Mae nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden yn y Fro am bob 1,000 o bobl wedi cynyddu ers 2017 ac mae ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru.




Ffynhonnell: Data Cymru

21 Er bod perfformiad y Cyngor a Legacy yn y chwartel uchaf o ran nifer yr ymweliadau â'u canolfannau, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau i'w sicrhau ei hun bod y gwasanaethau hamdden a ddarperir gan Legacy yn sicrhau gwerth am arian. Byddai ymarfer gwerth am arian llawn yn golygu dadansoddi costau a refeniwiau i'r Cyngor dros hyd y contract.

22 Canfuom fod lefel yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer aelodau i'w helpu i fonitro perfformiad yn gymharol gyfyngedig. Er enghraifft, roedd gwybodaeth am adborth cwsmeriaid yn gyfyngedig ac roedd diffyg mesurau o'r effaith gymdeithasol a data meincnodi.

23 Yn gyson â'n hadroddiad Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol?[2], a'n Papur Trafod: chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol'[3] byddai o fudd i'r Cyngor archwilio sut y gall wella'i drefniadau craffu fel eu bod yn cael mwy

[2] Canfu'r adroddiad Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? fod y Cyngor wedi newid ei drefniadau craffu ond y dylai ystyried cyfleoedd i'w swyddogaeth graffu weithio'n wahanol i ymateb i heriau yn awr ac yn y dyfodol a chael mwy o effaith

[3] Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu'n 'Addas at y Dyfodol' – Offeryn rhyngweithiol.

o effaith. Gallai hyn fod trwy sicrhau bod aelodau pwyllgorau'n cael eu cynnwys yn well wrth ddethol eitemau ar gyfer agendâu ac ymgysylltu priodol a rhagweithiol â phobl leol.

24 Mae Strategaeth Hamdden y Cyngor yn cynnwys pedwar amcan sy'n cynnwys: 'Mwy o bobl yn gorfforol egnïol bob dydd' a 'Pobl yn teimlo'n iachach'. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am berfformiad ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddefnydd ac aelodaeth o ganolfannau hamdden yn hytrach nac amlder gweithgarwch ac iechyd. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig i roi cymorth i reoli'r contract a dylid ei hestyn i ystyried yr effaith ehangach ar iechyd a llesiant.

25 Mae'r Cyngor yn diwygio'i Gynllun Corfforaethol a'i drefniadau rheoli perfformiad. Bydd hyn yn darparu cyfle i gryfhau trefniadau monitro perfformiad ar gyfer gwasanaethau Legacy Leisure ac i helpu i reoli eu heffaith ar gyflawni'r Amcanion Llesiant ac ar gyrraedd y Nodau Llesiant Cenedlaethol a.y.b.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

**Arddangosyn 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio**

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid ystyried mai dangosyddion ydynt. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau wrth ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?**

- Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).
- Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.
- O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.
- Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.
- Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.
- Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?**

- Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.
- Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.
- Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?**

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.
- Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?**

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?**

- Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.
- Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.